

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Adrannau 30 a 31

**DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) (DIWYGIO) 2018
Archwilio Cyfrifon am y Flwyddyn Ariannol 2018/2019
RHYBUDD AM HAWLIAU CYHOEDDUS**

1. Gall y personau sydd â diddordeb yn y materion hyn archwilio a gwneud copïau o gyfrifon yr uchod am flwyddyn ariannol 2018/2019 ynghyd â holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynion y cyfrifon hynny. Bydd modd gwneud hyn yn Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd, yn ystod y cyfnod 18 Mehefin i 15 Gorffennaf 2019, dydd Llun i Gwener bob wythnos rhwng 9.00 y.b. a 4.30 y.p.. Bydd Datganiad o'r Cyfrifon hefyd ar gael ar ein gwefan www.cronfabensiwnwynedd.cymru.
2. Archwilydd y cyfrifon yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
3. Ar 16 Gorffennaf 2019, neu wedi hynny, ar gyfer:

Cyfrifon	Bydd hawl gan etholwyr
Cyngor Gwynedd a Chyngor Gwynedd fel Awdurdod Harbwr	Cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy

ofyn i'r Archwilydd roi cyfle iddynt neu'u cynrychiolwyr ei holi am y cyfrifon a'r hawl i gyfarfod gydag ef ac i gyflwyno gwrthwynebiadau:

- ar y sail fod unrhyw eitem yn y cyfrifon yn torri'r gyfraith, bod rhywun wedi hepgor unrhyw swm yn y cyfrif y dylid fod wedi'i gynnwys neu y bu colled neu ddiffyg oherwydd camymddygiad bwriadol ar ran unrhyw berson; neu
 - unrhyw fater y sylwodd yr Archwilydd arno yn ystod yr archwiliad ac y gallai adrodd arno er budd y cyhoedd.
4. Serch hynny, ni ellir gwrthwynebu oni bai fod yr Archwilydd yn y lle cyntaf wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig am hynny ac yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Yr un pryd ag yr anfonir rhybudd gwrthwynebu i'r Archwilydd, rhaid anfon copi o'r rhybudd i Gronfa Bensiwn Gwynedd i'r cyfeiriad isod.

Dyddiedig: 4ydd Mehefin 2019

Dafydd L. Edwards
Pennaeth Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH